

Diwedd tymor a dechrau tymor

Dwi'n gwerthfawrogi bob tymor o'r flwyddyn ond rwy'n mwynhau mis Medi mewn ffordd arbennig.

Cyn i mi ddechrau ar fy ngweinidogaeth ym 1995 bŵm yn athro yng Ngwent, fel ag yr oedd ar y pryd, am gyfnod o 21 mlynedd. Dysgais mewn ysgol gynradd a phob tro byddwn yn dychwelyd i'r ysgol ar ddechrau blwyddyn ysgol byddai gennyf ddsbarth newydd sbon. Byddai gan bob disgybl llyfrau glân heb ysgrifen ynddynt, neu wallau, neu olion marcio. Fel arfer byddai'r tywydd yn ffafriol ac fe fyddai'r ysgol yn llawn cyffro a'r plant a'r athrawon yn falch o weld ei gilydd eto.



Gallwn fod yn wamal ac awgrymu bod y teimlad braf yn cael ei chwalu wrth sylweddoli bod yn rhaid i ni ymgynnull eto'r diwrnod nesaf!

Roedd hwn bob amser yn ddarlun i mi o ymwneud Duw â ni. Am sut y caiff ein pechodau eu maddau trwy ei Gariad; a'n bod ninnau, fel y llyfrau newydd, heb ôl eu byseddu arnom. Neu ar ddechrau tymor bod cyfleodd newydd a chychwyn newydd ar gael i ni, bob un, bob amser.

Yr adeg honno roedd gennyf lain o dir lle roeddwn yn tyfu llawer o lysiau a ffrwythau. Erbyn heddiw rwy'n medru parhau i wneud hynny yn fy ngardd fy hun – er ei fod gryn dipyn yn

llai na'r rhandir oedd gennyf gynt.

Erbyn diwedd Medi byddai'r rhan fwyaf o gynnyrch yr ardd wedi ei gynaeafu a byddai'r gwaith o glirio'r tir a'i droi ar gyfer y gwanwyn nesaf wedi ei gwblhau. Byddai'r gwaith hyn yn rhoi llawer o foddhad wrth i mi gofio a sylweddoli na fu llafur y tymor yn ofer!

Os rhown y ddau brofiad at ei gilydd daw rhywbeth gwerthfawr i'r amlwg. Roedd fel petai'r addewid am dymor newydd yn y rhandir a'r disgygliad a'r cynnwrf wrth i fywyd mynd yn ei flaen drwy'r flwyddyn ysgol yn cyd-blethu. Rhyngddynt teimlais fod Duw i'w foli am ffrwyth y ddaear a'i gnydau tymhorol a bod potensial aruthrol ym mhob unigolyn.



'Yr wyt yn coroni'r flwyddyn â'th ddaioni, ac y mae dy lwybrau'n diferu gan fraster'

Eleni, roedd mis Medi i mi yn ddechrau ar gyfres o gyfarfodydd niferus fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol. Ac rwy'n parhau i fod yn ddiolchgar ac yn edrych ymlaen, yn ddisgwylgar, o hyd!!

Brian Matthews,
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol

Croeso i Gymdeithasfa'r Gogledd

Ar ddydd Mercher Hydref 10fed bydd Eglwys Unedig Tegid a Llanfor, Y Bala, Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy, yn cael y fraint o groesawu Llywydd, Swyddogion a chynrychiolwyr eglwysïr Gogledd, i eisteddiadau cyfarfod yr Hydref o'r Gymdeithasfa.

Mae'n sicr na fydd rhaid anfon map i'r cynrychiolwyr i ddod o hyd i Gapel Tegid. Yma mae un o brif ganolfannau Methodistiaid yn y Gogledd. Fel y gwelwch yn y llun mae Cof Golofn Thomas Charles o flaen yr adeilad, sy'n dynfa i bobol o bedwar ban byd.

Ar ran yr eglwys estynnaf groeso cynnes iawn i bawb.

Edrychir ymlaen am weld nifer dda yn mynychu'r cyfarfodydd a gweddiwn am fendith gyfoethog Duw ar y cyfan o'r gweithgareddau.

Menna Ll. Green

